

Y PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD AC ALLANOL

Dyddiad	26 Mehefin 2003
Amser	09:00
Lleoliad	Ystafelloedd Pwyllgora 3 & 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol
Teitl	Y Confensiwn ar Ddyfodol Ewrop

Rhagarweiniad

1. Cytunodd Cyngor Ewropeaidd Laeken ym mis Rhagfyr 2001 ar agenda'r Confensiwn ar Ddyfodol Ewrop. Roedd yn galw am gynnal archwiliad sylfaenol o'r UE er mwyn mynd i'r afael â dwy her arbennig: sicrhau bod strwythurau'r UE yn addas ar gyfer Undeb ehangach o 25 aelod neu fwy; a datrys y broblem bod y cyhoedd yn teimlo diffyg cysylltiad cynyddol â'r UE. Roedd yn rhaid i'r Confensiwn roi sylw arbennig i: effeithlonrwydd; rhannu grym (h.y. pryd y dylai'r UE weithredu a phryd y dylid gadael i'r Aelod Wladwriaethau weithredu); symleiddio, bod yn eglur a bod yn dryloyw.
2. Mae'r Confensiwn yn cynnwys cynrychiolwyr o lywodraethau a seneddau cenedlaethol yr Aelod Wladwriaethau presennol a'r rhai sy'n gwneud cais i fod yn aelodau, sefydliadau'r UE, yn ogystal â chynrychiolwyr o'r Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol (Ecosoc) a Phwyllgor y Rhanbarthau (CoR). Penodwyd cyn-Arlywydd Ffrainc, Valéry Giscard d'Estaing, yn Gadeirydd y Confensiwn, gyda dau ddirprwy i'w gefnogi, Mr Dehaene cyn-Brif Weinidog Gwlad Belg a Mr D'Amato cyn-Brif Weinidog yr Eidal.
3. Cyfarfu'r Confensiwn am y tro cyntaf ar 28 Chwefror 2002 ac mae'n bwriadu adrodd i Gyngor Ewropeaidd Thessaloniki ym mis Mehefin 2003. Mae bellach wedi cyrraedd cyfnod drafftio terfynol y gwaith. Bydd yn llunio adroddiad yn nodi'r meysydd y cytunwyd arnynt drwy gonsensws ac yn cynnig opsiynau ar gyfer y materion lle na ellir cael consensws. Bydd ei adroddiad ar ffurf Cytundeb Cyfansoddiadol Drafft ar gyfer yr UE. Bydd Penaethiaid y Llywodraethau wedyn yn cynnal Cynhadledd Ryng-lywodraethol (IGC) i wneud penderfyniadau terfynol ar argymhellion y confensiwn.
4. Yn ystod ei gyfnod dadansoddiadol, lluniodd y Confensiwn gyfres o weithgorau gan ddilyn mandad a oedd wedi'i bennu gan y Praesidiwm. Rhoddodd y gweithgorau adroddiadau i'r cyfarfod llawn ar y meysydd canlynol: sybsidiaredd, y Siarter Hawliau Sylfaenol, grymoedd ategol, personoliaeth gyfreithiol, seneddau cenedlaethol, llywodraethu economaidd, Cyfiawnder a Materion Cartref, symleiddio, amddiffyn a gweithredu allanol. Gellir darllen eu hadroddiadau'n llawn ar wefan y Confensiwn yn:

http://european-convention.eu.int/doc_wg.asp?lang=EN

Llywodraeth y DU

5. Peter Hain a'i ddirprwy y Farwnes Scotland sy'n cynrychioli Llywodraeth y DU. Gisela Stewart AS (Llafur) a David Heathcoat-Amory AS (Ceidwadwyr),

y mae'r pwyllgor hwn wedi gwrandao ar dystiolaeth ganddynt, a'u dirprwyon yr Arglwydd Tomlinson (Llafur) a'r Arglwydd Maclennan (Democratiaid Rhyddfrydol), sy'n cynrychioli San Steffan.

6. Mae'r DU wedi bod yn hynod weithgar ac wedi dangos agwedd gadarnhaol iawn tuag at y Confensiwn. Mae'n cefnogi cytundeb cyfansoddiadol ar gyfer yr UE sy'n datgan yn bendant mai undeb o wladwriaethau yw'r UE, ac sy'n nodi'n glir beth y mae'r UE yn ei wneud a sut y mae'n gwneud hynny.

Llywodraeth Cynulliad Cymru

7. Cafwyd cyfraniad uniongyrchol sylweddol gan Lywodraeth y Cynulliad i'r Confensiwn ar ffurf papur ar y cyd rhwng Cymru, yr Alban a'r DU ar agweddau rhanbarthol yr UE. Cyflwynwyd y papur i'r Confensiwn yn nhrefodaeth ei gyfarfod llawn ar 7 Chwefror 2003. Cytunwyd ar y papur hwn yn y cyfarfod rhwng Prif Weinidog Cymru a'i gydweithwyr yn Whitehall ar Gyd-bwyllgor y Gweinidogion (Ewrop). Dyma'r ddogfen bolisi tramor gyntaf i gael ei llunio ar y cyd rhwng y Gweinyddiaethau Datganoledig a'r DU. Cafodd y papur hefyd ei gyflwyno i'r pwyllgor hwn. Dyma'r pwyntiau allweddol:

- Dylid ymgorffori egwyddorion sybsidiaredd yn y Cytundeb gan gynnwys cyfeiriad penodol at rôl yr awdurdodau rhanbarthol a lleol;
- Dylai'r Aelod Wladwriaethau ymgynghori â'r Gweinyddiaethau Datganoledig drwy gyfrwng trefniadau monitro senedd yr Aelod Wladwriaeth;
- Hawl Pwyllgor y Rhanbarthau (CoR) i apelio i'r Llys Cyfiawnder Ewropeaidd (ECJ) bod yr egwyddor sybsidiaredd wedi'i thorri;
- Dylai'r Comisiwn ymgynghori'n uniongyrchol â'r awdurdodau rhanbarthol ar bolisiâu perthnasol (er enghraifft diwygio erthygl 211);
- Dylai'r Comisiwn asesu effaith ariannol ei gynlluniau ar awdurdodau sy'n llunio ac yn gweithredu polisiâu;
- Defnyddio mwy o ddeddfwriaeth fframwaith er mwyn caniatáu hyblygrwydd i weithredu yn ôl amgylchiadau lleol yn hytrach na dibynnu'n ormodol ar y Cyfarwyddebau;
- Ystyried cytundebau teiran fel dull hyblyg o weithio ar y cyd;
- Diwygio Pwyllgor y Rhanbarthau; dylid ymgynghori ag ef ar gynigion yn y cyfnod cyn llunio deddfwriaeth, a phan fo'r cyngor yn cael ei wrthod, dylai'r Comisiwn nodi'r rhesymau; dylai'r Comisiwn ateb cwestiynau Pwyllgor y Rhanbarthau yn llafar ac yn ysgrifenedig; rhaid i Senedd Ewrop ymgynghori â'r Pwyllgor ar faterion sy'n effeithio ar y rhanbarthau; dylid rhoi statws cyfansoddiadol llawn iddo a newid ei enw o bosibl.

Y Cytundeb Cyfansoddiadol Drafft

8. Mae'r Cytundeb Drafft yn 230 o dudalennau'n fras ac mae'n tyfu. Gellir darllen y testun yn llawn ar wefan y Confensiwn yn:

<http://european-convention.eu.int/bienvenue.asp?lang=EN>

9. Mae'r Drafft wedi'i rannu'n "Deitlau" (sef "penodau") ac wedyn yn erthyglau. Dyma grynodedb o'r penawdau:

Mae Teitl I yn rhoi diffiniad o'r Undeb a'i amcanion; undeb o wladwriaethau sy'n rhannu'r un gwerthoedd democrataidd, sy'n cydlynu polisïau ar lefel Ewropeaidd ac yn gweinyddu rhai grymoedd ar sail ffederal. Mae'n disgrifio gwerthoedd yr UE - urddas, hawliau dynol, penarglwyddiaeth y gyfraith. Mae'n disgrifio amcanion: cydlyniant economaidd a chymdeithasol, marchnad fewnol, cyflogaeth, yr amgylchedd, gwyddoniaeth, cyfiawnder, polisi tramor a pholisi diogelwch cyffredin. Mae'n darparu personoliaeth gyfreithiol ar gyfer yr UE.

Mae Teitl II yn sefydlu dinasyddiaeth Ewropeaidd gyffredin, i'w mwynhau ochr yn ochr â dinasyddiaeth yr Aelod Wladwriaeth ac mae'n sefydlu hawliau sylfaenol drwy ymgorffori'r Siarter Hawliau Sylfaenol.

Mae Teitl III yn pennu terfynau pwerau'r UE, yn unol ag egwyddorion sybsidiaredd a chyfranoldeb; mae unrhyw rym nad yw'r Cyfansoddiad yn ei drosglwyddo i'r Undeb yn aros ar ysgwyddau'r Aelod Wladwriaeth; mae'n sefydlu goruchafiaeth cyfraith Ewrop drwy arfer y grymoedd a drosglwyddir i'r Undeb; mae'n nodi'r grymoedd sydd ar lefel yr UE yn unig - tollau, polisi masnachol, polisi ariannol parth yr ewro, gwarchod bioleg forol; grymoedd a rennir a'r meysydd hynny lle mae'r Undeb yn cefnogi neu'n cydlynu gweithredu ar lefel yr Aelod Wladwriaeth ond lle nad oes ganddo rym deddfwriaethol.

Mae Teitl IV yn diffinio strwythur sefydliadol yr UE a rôl pob un o'r sefydliadau: Cyngor Ewrop; y posibilrwydd o gael Arlywydd ar gyfer Cyngor Ewrop; Senedd Ewrop; y Comisiwn; y posibilrwydd o gael Cyngres pobl Ewrop; y Llys Cyfiawnder; Llys yr Archwilwyr; y Banc Canolog; y Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol a Phwyllgor y Rhanbarthau.

Mae Teitl V yn rhestru'r gwahanol offerynnau sydd ar gael i'r Undeb er mwyn arfer pwerau (hy gweithdrefnau deddfu a gweithredu).

Mae Teitl VI yn disgrifio bywyd democrataidd yr Undeb, tryloywder, cyfranogiad, etholiadau Ewropeaidd, rheolau pleidleisio'r sefydliadau (QMV).

Mae Teitl VII yn delio â materion ariannol yr Undeb.

Mae Teitl VIII yn pennu pwy sy'n cynrychioli cysylltiadau rhyngwladol yr UE, polisi Tramor a Diogelwch Cyffredin.

Mae Teitl IX yn sôn am y cysylltiadau posibl â'r gwladwriaethau sy'n ffinio â'r UE.

Mae Teitl X yn sefydlu'r egwyddorion ar gyfer bod yn aelod o'r UE, y gweithdrefnau ar gyfer dod yn aelod, diarddel o'r Undeb, tynnu'n ôl yn wirfoddol.

10. Mae adrannau olaf y Cytundeb Drafft yn ymdrin â materion technegol cyfreithiol.

Beth Nesaf

11. Mae'n amser i'r Confensiwn roi'r gorau i'r trafod a'r taro bargeinion. O ddechrau mis Mehefin bydd yn cwrdd mewn cyfarfodydd lled-barhaol. Cafwyd consensws anhygoel ar rannau sylweddol o'r agenda, ond cafwyd anghytundeb ar un mater pwysig - a ddylai'r Aelod Wladwriaethau benodi Arlywydd llawn amser ar gyfer Cyngor Ewrop (i ddisodli'r arlywyddiaeth sy'n newid bob chwe mis). Mae'r rhan fwyaf o'r Aelodau mawr o blaid; mae'r Comisiwn a'r rhan fwyaf o'r Aelodau bach yn erbyn. Mae'r Aelod Wladwriaethau Bach o'r farn mai cynllwyn ydyw gan y gwladwriaethau mawr i reoli'r agenda; mae'r Comisiwn yn ystyried ei fod yn fygythiad uniongyrchol i statws eu harlywyddiaeth eu hunain (Prodi, ar hyn o bryd). Mae Llywodraeth y DU yn cefnogi'r syniad, gan ddweud y byddai'n cryfhau safle'r Undeb yn yr Aelod Wladwriaethau ac yn atal ffederaliaeth rhag datblygu.

12. Dylai'r Gynhadledd Ryng-lywodraethol (IGC) gychwyn yn ystod yr haf. O fis Mehefin, yr Eidal fydd ag Arlywyddiaeth yr UE a'i gobaith yw ymgorffori'r Cyfansoddiad mewn cytundeb symbolaidd newydd - Cytundeb Rhufain (symbolaidd am mai Cytundeb gwreiddiol Rhufain wnaeth sefydlu'r Gymuned Ewropeaidd Economaidd a'i chwe aelod gwreiddiol ym 1957). Os bydd yr IGC yn llusgo ymlaen, gallai'r amserlen symud i 2004. Pe byddai hynny'n digwydd, mae'n debyg y byddai Cytundeb tybiedig Rhufain yn troi'n Gytundeb Dulyn neu rywle arall yn Iwerddon.

Rhodri Morgan AC
Prif Weinidog Cymru